# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Preswyl Caeglas Ltd**

**Cartref Preswyl Caeglas**
**Heol Cennen Ffairfach**
**Llandeilo**
**SA19 6UL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/03/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Preswyl Caeglas Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cartref Preswyl Caeglas Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 16/11/2021 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Caiff y bobl y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Mae gan y gweithwyr gofal ddealltwriaeth dda o anghenion a dewisiadau unigol y bobl. Mae'r cofnodion gofal yn rhoi ymdeimlad o'r unigolyn ac yn cynnwys y person a/neu ei gynrychiolydd, ond gallent fod yn fwy manwl.

Mae'r bobl a'r gweithiwr meddygol proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref yn canmol y gweithwyr gofal a
thîm rheoli'r gwasanaeth.

Caiff y rheolwr ei gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol a'r Cyfarwyddwr. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r Cyfarwyddwr yn treulio amser yn y gwasanaeth yn rheolaidd. Mae eu presenoldeb, ar y cyd ag amrywiaeth o adnoddau archwilio ansawdd ac ymweliadau Rheoliad 73 yr Unigolyn Cyfrifol, yn sicrhau eu bod yn cael
trosolwg da o'r gwasanaeth.

Mae Caeglas yn cynnig amgylchedd croesawgar a glân i'r bobl. Mae'r décor a'r dodrefn mewnol o safon uchel ac yn cael eu cynnal a'u cadw i safon dda iawn.

## Llesiant

Caiff dewisiadau a barn y bobl eu cydnabod. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd gwely a dewis eu prydau bwyd a gallant godi a mynd i'r gwely pan fydd yn gyfleus iddyn nhw. Caiff yr unigolion a/neu eu cynrychiolwyr eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal. Gwneir ymdrech benodol i ofyn eu barn yn ystod cyfarfodydd i breswylwyr ac mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gofyn eu barn hefyd yn ystod ei ymweliadau Rheoliad 73. Mae'r bobl yn sgwrsio yn Gymraeg ac yn cael gwybodaeth yn Gymraeg os mai dyna yw eu dewis iaith.

Mae'r bobl yn ddiogel rhag y risg o niwed a chamdriniaeth. Mae'r bobl yn canmol y gweithwyr gofal a'u profiad o fyw yng nghartref Caeglas yn fawr. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus, wedi'u hyfforddi'n dda ac mae ganddynt feddwl uchel o'r unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn deall anghenion y bobl a'r ffordd orau o'u diwallu. Caiff gofynion a dewisiadau unigol eu cofnodi yn y cofnodion gofal. Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor iach â phosibl gan fod y gwasanaeth mewn cysylltiad agos â gweithwyr iechyd a gweithwyr meddygol proffesiynol.

Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn gallu codi pryderon am y gwasanaeth os bydd angen iddynt wneud hynny. Mae gweithdrefnau recriwtio, goruchwylio a hyfforddi da ar waith er mwyn sicrhau bod gan y staff y sgiliau, y wybodaeth a'r dulliau gofalu cywir. Mae'r staff yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau i ddiogelu'r bobl ac maent yn cael eu cefnogi gan bolisïau sy'n cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

## Gofal a Chymorth

Caiff anghenion a dewisiadau unigol y bobl eu cydnabod a'u deall. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus am hanesion personol yr unigolion, am eu hanghenion gofal ac am eu dewisiadau dyddiol. Mae'r cofnodion gofal yn darparu gwybodaeth am yr unigolyn, ei arferion dyddiol a'i anghenion gofal a chymorth ond gallent fod yn fwy manwl. Caiff asesiadau risg ategol eu hadolygu'n rheolaidd hefyd. Ceir tystiolaeth dda i ddangos bod y bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal.

Caiff gweithwyr iechyd a gweithwyr meddygol proffesiynol eu cynnwys yn y broses o ofalu am y bobl a rhoi cymorth iddynt pan fo angen. Gwelwyd hyn yn ystod yr ymweliad arolygu ac mae wedi ei gofnodi'n dda yn y cofnodion gofal. Mae cysylltiadau cryf â'r practis meddygon teulu lleol, ac mae meddyg teulu yn ymweld â'r gwasanaeth bob wythnos. Yn ystod yr ymweliad arolygu gwnaethom siarad â'r meddyg teulu a oedd yn ymweld, a ddywedodd wrthym, *"I am very satisfied with the home. I visit weekly to conduct surgeries. I think the weekly visits have definitely reduced the need for admissions to hospital. There is good continuity of the GP visiting and this helps to build up good relationships with the manager, care staff and for the residents living here".*

Mae'r bobl yn codi ac yn mynd i'r gwely pan fyddant yn dewis gwneud hynny, ac mae amrywiaeth o opsiynau ar gael o ran prydau bwyd y gall y bobl eu bwyta yn yr ystafell fwyta gymunedol neu yn eu hystafelloedd eu hunain. Dywedodd y bobl wrthym ar ôl iddynt fwyta eu cinio *"the food is lovely, always cooked fresh"* ac *"I enjoy the food and the odd glass of wine with my meal too".* Mae'r cofnodion o'r cyfarfodydd i breswylwyr yn dangos bod y staff yn gofyn am safbwyntiau a barn y bobl ac y cânt eu hannog i'w cyflwyno.

Mae'r staff gofal yn rhyngweithio'n garedig â'r bobl. Mae nifer o'r staff yn siarad â'r bobl yn Gymraeg gan mai dyma yw eu dewis iaith. Mae'r bobl yn canmol y gweithwyr gofal a'r profiad o fyw yn y gwasanaeth yn fawr. Gwnaethant ddweud wrthym, "*they [gweithwyr gofal] are very kind and have looked after me really well" "the bottom line is I feel cared for, it's important to me"* a *"This is my home for life, I'm happy to be here".*

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yng nghartref Caeglas a'u bod yn gallu codi pryderon os oes angen iddynt wneud hynny. Gwnaethant ddweud wrthym, "*I know I can speak to one of the carers if I am concerned about anything"* a *"[rheolwr] and [Unigolyn Cyfrifol] are always around if I need to speak to them".*

## Yr Amgylchedd

Caiff risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu lleihau. Mae'n ofynnol i bob ymwelydd lofnodi wrth fynd i mewn ac allan o'r gwasanaeth. Caiff amrywiaeth o wiriadau ac archwiliadau cynnal a chadw eu cynnal. Caiff y cyfarpar diffodd tân a'r cyfarpar symud a chodi a chario eu profi a'u cynnal a'u cadw o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEP) wedi'u teilwra ar gyfer pob unigolyn ac ar gael yn hawdd.

Mae'r ardaloedd cymunedol a'r allanfeydd argyfwng yn daclus ac nid oes unrhyw beryglon yn yr ardaloedd hynny. Caiff sylweddau peryglus i iechyd (COSHH) eu storio'n ddiogel. Mae larymau argyfwng yn hawdd i'r bobl eu cyrraedd i'w defnyddio ac mae'r staff yn ymateb iddynt mewn modd amserol. Mae cyfyngwyr ffenestri ar waith lle bo'u hangen.

Cefnogir y bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Caiff y coridorau eu haddurno i safon uchel ac mae lluniau a gwaith celf i'w gweld mewn rhai ardaloedd. Mae coridorau'r ystafelloedd gwely wedi'u haddurno gan ddefnyddio gwahanol ddeunyddiau ar y waliau a all fod o gymorth wrth helpu'r bobl i ddod o hyd i'w hystafelloedd gwely ac i symud o amgylch y gwasanaeth. Dylid rhoi ystyriaeth bellach i sut y gellid cynnwys y bobl wrth addurno'r gwasanaeth yn y dyfodol.

Mae'r ystafelloedd ymolchi cymunedol yn groesawgar i'r bobl eu defnyddio ac iddynt allu mwynhau eu profiad. Mae'r toiledau a'r ystafelloedd ymolchi cymunedol yn cynnwys cyfarpar i gefnogi pobl ag anawsterau â'u golwg.

Mae'r ystafelloedd gwely hefyd wedi'u haddurno i safon uchel ac wedi cael eu personoli ag eitemau, dodrefn, lluniau, ac ornamentau yn unol â dewisiadau'r unigolyn. Mae rhaglen adnewyddu ac ailaddurno barhaus ar waith.

Mae'r gerddi cymunedol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn cynnig llefydd i'r bobl eistedd gyda'u hymwelwyr pan fydd y tywydd yn gynnes.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl bod trefniadau llywodraethu da ar waith. Mae prosesau recriwtio a dethol priodol ar waith. Caiff y cliriadau a'r gwiriadau cywir eu cynnal a'u dogfennu cyn i'r staff ddechrau gweithio.

Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd wedi'u dogfennu, ac arfarniad blynyddol. Mae gan y gweithwyr gofal barch mawr tuag at y rheolwr, yr Unigolyn Cyfrifol a'r Cyfarwyddwrm gan ddweud wrthym *"this is a lovely place to work, I am well supported by manager and RI"* a *"we are a good team and we are well supported by the [rheolwr], [Unigolyn Cyfrifol] and [Cyfarwyddwr]".* Caiff y rheolwr ei gefnogi'n dda iawn gan yr Unigolyn Cyfrifol a'r Cyfarwyddwr. Mae'r rheolwr bellach yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd wedi'u dogfennu gan yr Unigolyn Cyfrifol, ar ôl i'r mater hwn gael ei nodi fel diffyg yn yr arolygiad diwethaf.

Mae'r bobl yn cael gofal gan dîm o staff gwybodus a hyfforddedig sy'n cael ei gefnogi'n dda. Mae gan y gweithwyr gofal wybodaeth am y bobl y maent yn eu cefnogi, eu dewisiadau gofal a'u hanghenion. Mae'r staff yn cael amrywiaeth o hyfforddiant a chaiff hyn ei ategu gan y matrics hyfforddiant ac adborth gan y staff. Mae'r staff gofal yn dangos dealltwriaeth dda o'u cyfrifoldeb i amddiffyn y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a rhoi gwybod am unrhyw bryderon. Mae'r staff yn symud ac yn codi a chario'r bobl yn ddiogel, ac mae eu hanghenion unigol yn cael eu hystyried.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r Cyfarwyddwr yn treulio amser yn y gwasanaeth yn rheolaidd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi cynnal ymweliadau Rheoliad 73. Mae AGC wedi cael copïau o'r adroddiadau, sy'n dangos ei fod yn siarad â'r bobl a'r staff fel rhan o'r ymweliadau â'r gwasanaeth. Gwnaeth y staff a'r bobl gadarnhau hyn gyda ni. Mae amrywiaeth o adnoddau monitro ac archwiliadau ar waith. Caiff camau gweithredu sy'n deillio o'r archwiliadau eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n rheolaidd, ond mae angen eu cofnodi'n well.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r Datganiad o Ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir ac mae AGC yn cael gwybod am ddigwyddiadau yn briodol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 29/04/2024